**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Sue Tranka
Prif Swyddog Nyrsio Cymru

31 Mai 2023

Annwyl Sue

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn cynnal ymchwiliad er mwyn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae rhagor o fanylion am gylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gael ar ein gwefan.

Ar hyn o bryd, rydym yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig, ac rydym yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid yn ddiweddarach eleni. Byddwn hefyd yn eich gwahodd chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sesiwn dystiolaeth lafar maes o law.

Yn y cyfamser, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r eitemau a ganlyn:

1. Copïau o'r adnoddau cynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddisgrifir ym mharagraff 41 o'r canllawiau statudol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (fersiwn 2), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, neu lincs i'r adnoddau hynny.

   Os nad oes modd darparu copïau o'r adnoddau hynny, neu lincs iddynt, dylech ddarparu sgrinluniau o'r adnoddau dan sylw a/neu ddisgrifiad llawn o sut maent yn gweithio.

2. Copi o'r canllawiau gweithredol ynghylch defnyddio'r adnoddau a ddisgrifir ym mharagraff 43 o'r canllawiau statudol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon yr eitemau hyn atom erbyn **dydd Gwener 15 Gorffennaf 2023,** a hynny er mwyn rhoi cyfle inni ystyried y wybodaeth dan sylw wrth baratoi i gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.